

Annwyl Gyngorydd,

Rydyn ni'n cysylltu gyda chi o flaen y cyfarfod cyngor yr wythnos nesaf i ddiolch i Gyngor Sir Gaerfyrddin am arwain y ffordd wrth sicrhau na chaiff unrhyw blentyn eu hamddifadu o'r sgiliau i allu siarad a gweithio yn Gymraeg a Saesneg.

O ganlyniad i'r lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr fe wnaeth y cyngor lunio strategaeth a chynllun i'w gweithredu. Cafodd y strategaeth honno ei derbyn yn ddiwrthwynebiad mewn cyfarfod Cyngor llawn yn 2014, a thestun diolch i'r Cyngor Sir yw bod pob carfan wedi cydweithio ar hyn. Un o gamau gweithredu allweddol y strategaeth honno yw symud holl ysgolion y sir, dros amser, ar hyd y continwmm iethyddol tuag at addysg Gymraeg.

Ysgol Llangennech yw'r gyntaf felly bydd eich cadarnhad chi ddydd Mercher nesaf fod Llangennech ar y ffordd yn gallu arwain y ffordd i weddill y sir a gweddill Cymru.

Dim ond addysg Gymraeg sydd yn rhoi'r cyfle a'r dewisiadau mewn bywyd mae'n plant yn eu haeddu. Dim ond plant sydd wedi cael addysg Gymraeg sydd yn gadael yr ysgol yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg. Byddai peidio cymeradwyo argymhelliad i newid iaith yr ysgol yn amddifadu cenhedlaeth arall o blant o'r sgil i allu siarad a gweithio'n Gymraeg yn ogystal â Saesneg .

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo na fydd Cymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith erbyn 2020 ac y bydd un cymhwyster Cymraeg i bawb. Gweithredu, polisi eich Llywodraeth chi mae'r Cyngor felly, er mwyn lleihau effaith y newid pan ddaw i rym.

/

We are contacting you ahead of next week's council meeting, to thank Carmarthenshire County Council for leading the way to ensuring that no child will be deprived of the skills to be able to speak and work in English and Welsh.

As a result of the reduction in the number of Welsh speakers in Carmarthenshire, the council put together a strategy and plan to implement it. The strategy was accepted unanimously in a meeting of the full Council in 2014, and it is thanks to the County Council that all parties have worked together on this. One key element of that strategy is to move all schools in the county, over time, along the language continuum towards education in Welsh.

Llangennech school is the first to go through this process, so your confirmation next Wednesday that Llangennech is on the path towards education in Welsh will lead the way for the rest of the county and the rest of Wales.

Only Welsh medium education provides opportunities and life choices our children deserve. Only children who have received education in Welsh leave school fluent in Welsh and English. Rejecting the recommendation to change the language of the school would deprive another generation of children of the skill to speak and work in Welsh as well as English.

The Welsh Government has pledged that Welsh will not be taught as a second language by 2020, and that there will be one Welsh language qualification for everyone. The Council is now acting proactively to enable your Government's policy in order to minimize the impact of the change when it comes into force.

Yn Gywir,